

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 102/2014

www.cymru.gov.uk

Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Roi Organau: Camau 4 a 5



Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Roi Organau: Camau 4 a 5

Ian Jones

**Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru**

Casglwyd y data gan Beaufort Research Ltd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3411

E-bost: ian.jones2@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 1 Rhagfyr 2014

ISBN 978 1 4734 2568 2

© Hawlfraint y Goron 2014



Pob cynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, heblaw am pryd y nodwyd fel arall

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau a ffigurau	2
Canfyddiadau allweddol	3
1. Cyflwyniad	6
1.1 Cefndir	6
1.2 Ynglŷn â'r adroddiad hwn	6
1.3 Gwahaniaethau ystadegol	7
2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau	8
2.1 Ymwybyddiaeth, heb awgrymu dim, o unrhyw newid arfaethedig i'r system rhoi organau	8
2.2 Ffynhonellau gwybodaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau	10
2.3 Ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith i'r newidiadau i'r system rhoi organau	10
3. Agweddau at y newidiadau i'r system rhoi organau	13
3.1 Lefelau'r gefnogaeth i system optio allan	13
3.2 Rhesymau dros fod o blaid neu yn erbyn newid i system optio allan	14
4. Ymddygiad o dan system feddal o optio allan o roi organau	15
4.1 Ymddygiad ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoi Organau'r GIG ar hyn o bryd	17
5. Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu	19
Atodiad A: Methodoleg	21
Atodiad B: Holiadur	25

Rhestr o dablau a ffigurau

Tablau

Tabl A.1	Diffiniad o'r rhanbarthau	22
Tabl A.2	Diffiniad o'r grwpiau cymdeithasol	23
Tabl A.3	Niferoedd yn yr is-samplau o ran rhanbarth, oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol	24

Ffigurau

Ffigur 2.1	Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau?	8
Ffigur 2.2	Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau'n ôl rhanbarth	9
Ffigur 2.3	Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau'n ôl oedran	9
Ffigur 2.4	Cyn heddiw, oeddech chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y cynnig hwn?	11
Ffigur 2.5	Wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newidiadau yn y gyfraith yn ôl rhanbarth	11
Ffigur 2.6	Wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newidiadau yn y gyfraith yn ôl oedran	12
Ffigur 3.1	Pa un o'r datganiadau hyn am y newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n disgrifio'ch safbwynt chi orau?	13
Ffigur 4.1	Pan gaiff y system newydd o optio allan ei chyflwyno, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r hyn rydych yn meddwl y byddwch yn ei wneud?	15
Ffigur 4.2	Ymddygiad arfaethedig yn ôl rhanbarth	16
Ffigur 4.3	Ymddygiad arfaethedig yn ôl rhyw	16
Ffigur 4.4	Ymddygiad arfaethedig yn ôl grŵp cymdeithasol	17
Ffigur 4.5	Beth y mae ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoi Organau'r GIG ar hyn o bryd yn bwriadu ei wneud	18
Ffigur 5.1	Cyfran yr ymatebwyr sydd wedi trafod eu dymuniadau o ran rhoi organau wedi iddynt farw ag aelod o'r teulu .	19
Ffigur 5.2	Wedi trafod dymuniadau o ran rhoi organau ag aelod o'r teulu yn ôl rhanbarth	20
Ffigur 5.3	Wedi trafod dymuniadau o ran rhoi organau ag aelod o'r teulu yn ôl oedran	20

Canfyddiadau allweddol

Cefndir

- Bydd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 yn cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer caniatâd i roi organau a meinwe pobl sydd wedi marw yng Nghymru, a ddaw'n weithredol ar 1 Rhagfyr 2015.
- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau sy'n caniatáu i agweddau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r system rhoi organau yng Nghymru gael eu monitro. Gofynnwyd cwestiynau am roi organau yn Arolygon Omnibus Cymru, a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd. ym mis Mehefin 2014 (cam 4) a mis Medi 2014 (cam 5).
- Yng nghanam 4, gofynnwyd yr amrywiaeth lawn o gwestiynau'n ymwneud â lefelau ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiad o ran rhoi organau a chyflwyno'r system feddal o optio allan yng Nghymru. Yng nghanam 5 canolbwyntiwyd dim ond ar fonitro ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newid yn y gyfraith.
- Lle y bo'n bosibl, caiff y canfyddiadau eu cymharu â chamau blaenorol yr arolwg a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2012 (cam 1), mis Mehefin 2013 (cam 2) a mis Tachwedd 2013 (cam 3).

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr, heb awgrymu dim, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau. Rhwng cam 4 a 5, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o newidiadau o 57 y cant i 62 y cant.
- Yng nghanam 5, roedd ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau ar ei uchaf yn y Cymoedd a Chaerdydd a De-ddwyrain Cymru (66 y cant) ac ar ei isaf yng Ngogledd Cymru (57 y cant). Roedd ymwybyddiaeth yn dueddol o fod yn is ymhlith:
 - Pobl ifanc 16 - 34 oed; ac
 - Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.
- O'r rhai a oedd yn ymwybodol o newidiadau i'r system rhoi organau, eu prif ffynhonnell gwybodaeth oedd rhaglen newyddion neu raglen arall ar y teledu.
- Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau hefyd sut fyddai'r system yn newid yn eu barn nhw. Yng nghanam 4, dywedodd saith o bob deg ymatebwr (70 y cant) y byddai'n newid i system optio allan, neu i system cydsyniad tybiedig, a chododd hyn i dri chwarter (75 y cant) yng nghanam 5.

Ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith yn ymwneud â newid y system rhoi organau

- Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd o roi organau i'r holl ymatebwyr gan ofyn iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl amdano cyn hynny. Rhwng cam 4 a 5, cynyddodd canran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid o 58 y cant i 62 y cant.
- Yng nghanam 5, roedd nifer yr ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn amrywio o chwech o bob deg (59 y cant) yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i ddau draean (66 y cant) yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru. Roedd ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith yn dueddol o fod yn is ymhlith:
 - Pobl ifanc 16 - 34 oed; ac
 - Ymatebwyr o grwpiau cymdeithaso C2DE.

Agweddau tuag at newidiadau i'r system rhoi organau

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent o blaid ynteu yn erbyn newid y ddeddfwriaeth, ynteu a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt cyn penderfynu. Fel y bu ers cam 1, roedd mwyafrif clir o ymatebwyr yn dal o blaid newid y ddeddfwriaeth. Yng nghanam 4 roedd:
 - 63 y cant **o blaid**;
 - 18 y cant **yn erbyn**; ac
 - roedd **angen rhagor o wybodaeth** ar 18 y cant cyn penderfynu neu nid oeddent yn gwybod.
- Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol mewn agweddau tuag at y newidiadau yn ôl rhanbarth, oedran neu ryw. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth arwyddocaol o ran grŵp cymdeithasol, ac roedd 68 y cant o ymatebwyr ABC1 o'u plaid o'i gymharu â 58 y cant o ymatebwyr C2DE.
- Gofynnwyd cwestiynau penagored i'r ymatebwyr am y rhesymau dros fod o blaid, neu yn erbyn, newid i system feddal o optio allan o roi organau. Y rhesymau mwyaf cyffredinol dros fod o blaid y newid oedd y gellid achub rhagor o fywydau (19 y cant), byddai rhagor o organau ar gael (17 y cant), a byddai o fudd i eraill (17 y cant) .
- Y rheswm mwyaf cyffredin dros fod yn erbyn y newid oedd y byddai'r unigolyn yn colli'r hawl i ddewis (39 y cant), nid oeddent yn dymuno rhoi organau (18 y cant), ac roedd yn annheg tybio y byddai pobl am roi eu horganau wedi iddynt farw (15 y cant).

Ymddygiad o dan y system feddal o optio allan o roi organau

- Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr beth roeddent yn meddwl y byddant yn ei wneud pan gaiff y system feddal newydd o optio allan o roi organau ei chyflwyno. Yng ngham 4:
 - byddai 73 y cant yn **optio i mewn neu'n gwneud dim**;
 - byddai 15 y cant yn **optio allan**; a
 - doedd 12 y cant **ddim yn gwybod**.
- Roedd cyfran yr ymatebwyr a fyddai'n optio i mewn neu'n gwneud dim yn amrywio o ddau draean (67 y cant) yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i dri chwarter (75 y cant) yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru.
- Roedd gwahaniaethau arwyddocaol hefyd yn ôl rhyw a grŵp cymdeithasol, ac roedd dynion ac ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 yn fwy tebygol o optio i mewn neu wneud dim.
- Ymhlith yr ymatebwyr y ddywedodd eu bod wedi cofrestru eisoes ar Gofrestr Rhoi Organau'r GIG, mae'r gyfran a ddywedodd eu byddent yn optio i mewn neu'n aros ar y gofrestr wedi cynyddu dros y pedwar cam o 87 y cant yng ngham 1 i 99 y cant yng ngham 4.

Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr, 'Ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau ynghylch roi organau ar ôl i chi farw ag aelod o'r teulu?' Mae'r gyfran a ddywedodd eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu wedi aros yn sefydlog ers dechrau'r arolwg, sef tua phedwar o bob deg.
- Yng ngham 4, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau o ran rhoi organau ag aelod o'r teulu.
- Tra bod tua phedwar o bob deg o ymatebwyr ledled Cymru wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu, dim ond tri o bob deg (30 y cant) o ymatebwyr o'r Cymoedd oedd wedi gwneud hynny.
- Roedd traean (33 y cant) o bobl ifanc 16 – 34 oed wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu o'u cymharu â thua pedwar o bob deg o ymatebwyr 35 oed neu hŷn.
- Roedd llawer rhagor o ferched (45 y cant) na dynion (35 y cant) wedi trafod eu dymuniadau o ran rhoi organau ag aelod o'r teulu, a llawer rhagor o ymatebwyr ABC1 (48 y cant) nag ymatebwyr C2DE (33 y cant) wedi gwneud hynny.

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Derbyniodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer caniatâd i roi organau a meinwe pobl sydd wedi marw yng Nghymru, a ddaw'n weithredol ar 1 Rhagfyr 2015.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch gyfathrebu cyn i'r system newydd ddod yn weithredol er mwyn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd wedi'u hysbysu'n llawn o ran yr hyn y bydd y newidiadau'n ei olygu a'r dewisiadau y gallant eu gwneud. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch a llywio ei datblygiad, mae angen gwybodaeth reolaidd am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r gyfraith rhoi organau, a'u hagweddau at newidiadau i'r ddeddfwriaeth yng Nghymru.

Er mwyn diwallu'r anghenion ymchwil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru, a gynhelir gan Beaufort Research Ltd. Cesglir data ar gyfnodau rheolaidd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mehefin 2016.

1.2 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Yng nghanam 4, gofynnwyd yr amrywiaeth lawn o gwestiynau'n ymwneud â lefelau ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiad mewn perthynas â rhoi organau a'r system feddal newydd o optio allan o roi organau yng Nghymru. Yng nghanam 5, canolbwyntiwyd dim ond ar fonitro lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newid yn y gyfraith.

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r gwaith maes ar gyfer cam 4 (1,029 o ymatebwyr) rhwng 9 ac 20 Medi 2014. Cynhaliwyd ambell gyfweiliad yn y ddau gam ar ôl y dyddiadau hyn. Cynlluniwyd yr arolwg i sicrhau ei fod yn adlewyrchu poblogaeth breswyl 16 oed a hŷn yng Nghymru.

Yn yr adroddiad hwn, ceir cynrychiolaeth ffeithiol o'r canlyniadau, a chyflwynir canfyddiadau am agweddau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd mewn perthynas â'r system rhoi organau - nid yw'n ystyried cysylltiadau achosol. Lle y bo'n bosibl, caiff canfyddiadau eu cymharu â'r camau blaenorol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2012, mis Mehefin 2013 a mis Tachwedd 2013 ¹. Defnyddir y dadansoddiad hefyd i lywio'r modd y caiff gohebiaeth ei thargedu ymhlith grwpiau gwahanol o'r boblogaeth.

¹ Mae'r adroddiad ar gael yma: <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/public-attitudes-organ-donation/?lang=cy>

1.3 Gwahaniaethau arwyddocaol

Cynhaliwyd profion arwyddocâd o'r data fel rhan o'r dadansoddiad er mwyn helpu i ddehongli'r canlyniadau a llywio'r ymgyrch gyfathrebu. Pan ddisgrifir gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp fel gwahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hyn yn golygu bod y tebygolrwydd y ceir y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20 - h.y. mae'n debygol o adlewyrchu cydberthynas wirioneddol yn y boblogaeth².

Ceir rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg yn Atodiad A. Atodir yr holiadur llawn yn Atodiad B.


² Pan fydd data arolwg yn cael ei brofi am arwyddocâd ystadegol, tybir bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplo cwota cyfrannol, ni ellir sefydlu arwyddocâd ystadegol go iawn, a bod yn fanwl gywir. Felly, mae gwahaniaethau 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar y lefel cyfwng 95 y cant.

2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau

2.1 Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr, heb awgrymu dim, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau. Yng ngham 4, dywedodd 57 y cant eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau, sef canran debyg i honno a gafwyd yng ngham 2, ond cododd i 62 y cant yng ngham 5 (Ffigur 2.1).

Ffigur 2.1: Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau? ^a




Sail: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,002 (C5 Medi 2014)

(a) Yng nghamau 1 a 2, gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau?'

Mae ffigur 2.2 (isod) yn dangos ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau yn ôl rhanbarth yng ngham 4 a 5. Roedd ymwybyddiaeth wedi cynyddu ym mhob rhanbarth ac eithrio Bae Abertawe, a'r cynnydd mwyaf oedd naw pwynt canran, a hynny yn y Cymoedd.

Yng ngham 5, roedd ymwybyddiaeth ar ei uchaf yn y Cymoedd ac yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru (66 y cant), ac ar ei hisaf yng Ngogledd Cymru (57 y cant).


Ffigur 2.2: Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau'n ôl rhanbarth



Sail: 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,002 (C5 Medi 2014)

Mae ffigur 2.3 (isod) yn dangos ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau yn ôl oedran yng nghamau 4 a 5. Cynyddodd ymwybyddiaeth ymhlith yr ymatebwyr o dan 35 oed, o bedwar o bob deg (40 y cant) yng ngham 4 i bump o bob deg (50 y cant) yng ngham 5. Fodd bynnag, yng ngham 5, roedd ymwybyddiaeth ar ei uchaf ymhlith ymatebwyr 35 oed a hŷn.

Ffigur 2.3: Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau'n ôl oedran



Sail: 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,002 (C5 Medi 2014)

Yng ngham 4 a 5, roedd gwahaniaeth arwyddocaol mewn ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau yn ôl grŵp oedran. Yng ngham 4, roedd 62 y cant o ymatebwyr ABC1 yn ymwybodol o'r newidiadau o'i gymharu â 52 y cant o ymatebwyr C2DE. Yng ngham 5, tyfodd y gwahaniaeth hwn ac roedd 71 y cant o ymatebwyr ABC1 yn ymwybodol o'r newidiadau o'i gymharu â 55 y cant o ymatebwyr C2DE.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol ystadegol mewn ymwybyddiaeth yn ôl rhyw yng ngham 4 na 5.

2.2 Ffynhonnell a dealltwriaeth o'r newidiadau i'r system rhoi organau

Gofynnwyd cwestiwn penagored i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau, sef 'Sut ddaethoch chi'n ymwybodol o'r newidiadau i'r system bresennol o roi organau?'

Dywedodd tua dau draean o'r ymatebwyr (68 y cant yng ngham 4 a 65 y cant yng ngham 5) iddynt ddod i wybod amdanynt drwy raglen newyddion neu raglen arall ar y teledu. Yr ymateb mwyaf cyffredin wedyn oedd 'dywedodd rhywun wrthyf', a hynny gan 13 y cant yng ngham 4 ac 16 y cant yng ngham 5.


Gofynnwyd cwestiwn penagored i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau, sef 'Allwch chi ddweud wrtha i sut rydych chi'n meddwl y bydd y system yn newid?'. Yng ngham 4, dywedodd saith o bob deg o ymatebwyr (70 y cant) y byddai'n newid i system optio allan neu ganiatâd tybiedig, ac erbyn cam 5, roedd y nifer wedi codi i dri chwarter (75 y cant). Fodd bynnag, doedd tuag un o bob deg (13 y cant yng ngham 4; a 10 yng ngham 5) ddim yn gwybod.

2.3 Ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith i newid y system rhoi organau

Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd o roi organau i'r holl ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y newidiadau.

Yng ngham 4, dywedodd 58 y cant o ymatebwyr eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid, ac roedd y ganran hon wedi aros yn gymharol sefydlog ers cam 1, cyn codi i 62 y cant yng ngham 5 (ffigur 2.4).

Ffigur 2.4: Cyn heddiw, ydych chi wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y cynnig hwn? (Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd i'r ymatebwyr)




Sail: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,002 (C5 Medi 2014)

Mae ffigur 2.5 (isod) yn dangos ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith yn rhanbarth yng ngham 4 a 5. Cododd ymwybyddiaeth mewn tri rhanbarth (Gogledd Cymru, y Cymoedd a Chaerdydd a De-ddwyrain Cymru) ond bu gostyngiad yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru a Bae Abertawe.

Yng ngham 5, roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y newid yn amrywio o chwech o bob deg (60 y cant) yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i ddau draean (66 y cant) yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru.


Ffigur 2.5: Wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid yn y gyfraith yn ôl rhanbarth



Sail: 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,002 (C5 Medi 2014)

Mae ffigur 2.6 (isod) yn dangos ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith yn ôl oedran yng ngham 4 a 5. Ymhlith yr ymatebwyr o dan 35 oed, cododd ymwybyddiaeth o 42 y cant yng ngham 4 i 50 y cant yng ngham 5. Fodd bynnag, yng ngham 5, roedd ymwybyddiaeth ar ei uchaf ymhlith ymatebwyr 35 oed neu hŷn.

Ffigur 2.6: Wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid yn y gyfraith yn ôl oedran



Sail: 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,002 (W5 Medi 2014)

Yng nghamau 4 a 5, roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol yn nifer yr ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid yn y gyfraith.

Yng ngham 4, roedd dau draean (67 y cant) o ymatebwyr ABC1 wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith, o'i gymharu â hanner (50 y cant) o ymatebwyr C2DE.

Yng ngham 5, roedd saith o bob deg (70 y cant) o ymatebwyr ABC1 wedi gweld neu glywed rhywbeth, o'i gymharu â 56 y cant o ymatebwyr C2DE.

Nid oedd unrhyw wahaniaeth ystadegol yng ngham 4 na cham 5 yng nghyfran y dynion a'r merched a oedd wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith.


3. Agweddau at newidiadau i'r system rhoi organau

3.1 Lefelau o gymorth i'r system optio allan

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent o blaid, ynteu yn erbyn, newid y ddeddfwriaeth, ynteu a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt.

Fel y gwelir yn ffigur 3.1, mae mwyafrif clir o ymatebwyr yn parhau i fod o blaid newid yn y ddeddfwriaeth, gyda thua chwech o bob deg o blaid ers cam 2. Drwy gydol y pedwar cam, dywedodd tuag un o bob pump o ymatebwyr eu bod yn erbyn newid y ddeddfwriaeth.

Ffigur 3.1: Pa un o'r datganiadau hyn am newidiadau i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n disgrifio eich safbwynt chi orau? ^a



Sail: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014)

(a) Yng nghamau 1 a 2, gofynnwyd 'Pa un o'r datganiadau hyn am newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n disgrifio eich safbwynt chi orau?'

Yng ngham 4, nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn y nifer a oedd o blaid y newidiadau'n ôl rhanbarth, oedran neu ryw.

Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol, ac roedd 68 o'r cant o ymatebwyr ABC1 o blaid o'i gymharu â 58 y cant o ymatebwyr C2DE.

3.2 Rhesymau dros fod o blaid neu yn erbyn system optio allan

Gofynnwyd cwestiwn penagored i'r ymatebwyr am y rheswm dros fod o blaid, neu yn erbyn, newid i system optio allan o roi organau.

Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd dros fod o blaid y newid oedd y byddai'n achub rhagor o fywydau (19 y cant), byddai'n cynyddu nifer yr organau a oedd ar gael (17 y cant), a byddai o fudd i eraill (17 y cant).

Y rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros fod yn erbyn y newid oedd y byddai'r unigolyn yn colli'r hawl i ddewis (39 y cant), nid oeddent yn awyddus i roi organau (18 y cant), ac roedd yn annheg tybio y byddai pobl yn dymuno rhoi eu horganau wedi iddynt farw (15 y cant).


Gofynnwyd i ymatebwyr a ddywedodd fod angen rhagor o wybodaeth arnynt cyn penderfynu pa wybodaeth ychwanegol oedd ei hangen arnynt. Yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd bod angen rhagor o fanylion am y modd y byddai'r system yn gweithio (37 y cant) a rhagor o wybodaeth am rôl y teulu (12 y cant).

4. Ymddygiad o dan system feddal o optio allan o roi organau

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr yng ngham 4 beth roeddent yn ei feddwl y byddant yn ei wneud pan gaiff y system feddal newydd o optio allan o roi organau ei chyflwyno.

Rhwng cam 1 a 4, cynyddodd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd y byddant yn optio i mewn neu'n gwneud dim o 63 y cant i 73 y cant. Doedd fawr o newid yn y gyfran a ddywedodd y byddant yn optio allan rhwng camau 3 a 4, sef 15 y cant (ffigur 4.1).

Ffigur 4.1: Pan gaiff y system newydd o optio allan ei chyflwyno, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych yn ei feddwl y byddwch yn ei wneud? ^a




Sail: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014)

(a) Yng ngham 1 a 2, gofynnwyd i ymatebwyr, 'Os caiff y system newydd o optio allan ei chyflwyno, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r hyn rydych yn ei feddwl y bydddech yn ei wneud?'

Nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn ôl oedran o ran beth roeddent yn ei feddwl y byddent yn ei wneud o dan y system newydd. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, rhyw a grŵp cymdeithasol.

Er bod rhwng 14 ac 17 y cant o ymatebwyr ym mhob rhanbarth yn dweud eu bod yn meddwl y byddant yn optio allan, roedd y gyfran a fyddai'n optio i mewn neu'n gwneud dim yn amrywio o ddau draean (67 y cant) yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i dri chwarter (75 y cant) yng Nghaerdydd a Dde-ddwyrain Cymru (ffigur 4.2).


Ffigur 4.2: Ymddygiad arfaethedig yn ôl rhanbarth



Sail: 1,029 (C4 Mehefin 2014)

Mae ffigur 4.3 (isod) yn dangos ymddygiad arfaethedig yn ôl rhyw. Er mai'r un gyfran o ddynion a merched ddywedodd y byddant yn optio allan, roedd cyfran y dynion (76 y cant) a ddywedodd y byddant yn optio i mewn neu'n gwneud dim yn fwy na chyfran y merched (69 y cant).


Ffigur 4.3: Ymddygiad yn ôl rhyw



Sail: 1,029 (C4 Mehefin 2014)

Mae'r gwahaniaethau rhwng ymddygiad arfaethedig a grŵp cymdeithasol i'w gweld yn ffigur 4.4 (isod). Yn gyffredinol, roedd wyth o bob deg (80 y cant) o ymatebwyr ABC1 yn dweud y byddant yn optio i mewn neu'n gwneud dim o'i gymharu â dau draean (66 y cant) o ymatebwyr C2DE. Roedd ymatebwyr C2DE yn fwy tebygol nag ymatebwyr ABC1 i ddweud y byddant yn optio allan, neu i ddweud nad oeddent yn gwybod beth y byddant yn ei wneud.

Ffigur 4.4: Ymddygiad arfaethedig yn ôl grŵp cymdeithasol




Sail: 1,029 (C4 Mehefin 2014)

4.1 Ymddygiad ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoi Organau'r GIG ar hyn o bryd

Ymhlith yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoi Organau'r GIG ar hyn o bryd (28 y cant yng ngham 4)³, mae'r gyfran sy'n dweud y byddent yn optio i mewn neu'n aros ar y gofrestr wedi cynyddu dros y pedwar cam o 87 y cant yng ngham 1 i 99 y cant yng ngham 4 (ffigur 4.5).

³ Yn ôl Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT), roedd 33 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru ar y Gofrestr Rhoi Organau erbyn mis Mawrth 2014. Nid yw'r rheswm am y gwahaniaeth rhwng y ffigurau hyn yn eglur, er bod gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (2012) yn awgrymu nad yw rhai pobl sy'n cario cerdyn rhoddwr bob amser yn siŵr p'un a ydynt ar y gofrestr. Gweler <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/public-attitudes-organ-donation/?lang=cy>.

Ffigur 4.5: Ymddygiad arfaethedig o dan system optio allan ymhlith ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoi Organau'r GIG ar hyn o bryd. ^a




Sail: 236 (C1 Mehefin 2012); 260 (C2 Mehefin 2013); 270 (C3 Tachwedd 2013); 290 (C4 Mehefin 2014)

(a) Yng ngham 1 a 2, gofynnwyd i ymatebwyr, 'Os cyflwynir y system newydd o optio allan, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau beth rydych chi'n meddwl y byddech chi'n ei wneud?'

5. Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu

Gofynnwyd i ymatebwyr, 'Ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau ynghylch roi organau ar ôl i chi farw ag aelod o'r teulu?'. Fel y gwelir yn ffigur 5.1, mae cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu wedi aros yn sefydlog ers y dechrau, sef tua phedwar o bob deg.

Ffigur 5.1: Cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau o ran rhoi organau wedi iddynt farw ag aelod o'r teulu




Sail: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014)

Yng nghanam 4, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi trafod eu dymuniadau o ran rhoi organau ag aelod o'r teulu. Fel y gwelir yn ffigur 5.1, tra bo pedwar o bob deg o ymatebwyr drwy weddill Cymru wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu, yn y Cymoedd, dim ond tri o bob deg (30 y cant) oedd wedi gwneud hynny.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion yn ôl oedran, roedd traean (33 y cant) o bobl ifanc 16-34 oed wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu o'i gymharu â thua pedwar o bob deg o ymatebwyr 35 oed neu hŷn (ffigur 5.3).


Hefyd, roedd cyfran sylweddol uwch o ferched (45 y cant) na dynion (35 y cant) wedi trafod rhoi organau ag aelod o'r teulu, ac roedd cyfran sylweddol uwch o ymatebwyr ABC1 (48 y cant) nag ymatebwyr C2DE (33 y cant) wedi gwneud hynny.

Ffigur 5.2: Trafod dymuniadau ynghylch rhoi organau ag aelod o'r teulu, yn ôl rhanbarth



Sail: 1,029 (C4 Mehefin 2014)

Ffigur 5.3: Trafod dymuniadau ynghylch rhoi organau ag aelod o'r teulu, yn ôl oedran



Sail: 1,029 (C4 Mehefin 2014)

Atodiad A: Methodoleg

Cynlluniwyd sampl Arolwg Omnibws Cymru i gynrychioli'r boblogaeth breswyl 16 oed a throsodd yng Nghymru. Yr uned samplu yw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA) a dewisir 69 o bwyntiau cyfweld ledled Cymru gyda'r tebygolrwydd yn gymesur â'r boblogaeth breswyl, ar ôl haenu fesul awdurdod unedol a graddfa gymdeithasol.

O fewn pob pwynt samplu, defnyddir rheolaethau cwotâu demograffig mewn perthynas ag oedran a graddfa gymdeithasol o fewn rhyw at ddiben dewis ymatebwyr. Pennir cwotâu i adlewyrchu proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewiswyd.

Pwysolwyd y data yn ôl grŵp oedran o fewn rhyw o fewn grwpiau awdurdodau unedol er mwyn rhoi'r nifer gywir i bob cell o fewn cyfanswm Cymru yn deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2011.

Dewisir sampl newydd o leoliadau cyfweld ac unigolion ar gyfer pob arolwg ac ni chynhelir cyfweliad â mwy nag un person fesul cartref. Cynhelir cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg Cyfweliadau Personol â Chymorth Cyfrifiadurol (CAPI).

Yng ngham 4, cynhaliwyd y rhan fwyaf o waith maes rhwng 9 a 20 Mehefin 2014, a chynhaliwyd nifer fach o gyfweliadau ar ôl y dyddiad hwn. Cynhaliwyd cyfanswm o 1,029 o gyfweliadau wyneb yn wyneb, a'u dadansoddi, at ddibenion yr arolwg hwn. Yng ngham 5, cynhaliwyd y rhan fwyaf o waith maes rhwng 15 a 26 Medi 2014, a chynhaliwyd nifer fach o gyfweliadau ar ôl y dyddiad hwn. Cynhaliwyd cyfanswm o 1,002 o gyfweliadau wyneb yn wyneb, a'u dadansoddi.

Samplu cwota cyfrannol

Pan fydd data arolwg yn cael ei brofi am arwyddocâd ystadegol, tybir bod y sampl a gyflawnwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplu cwota cyfrannol (nid samplu ar hap), ni ellir sefydlu arwyddocâd ystadegol go iawn, a bod yn fanwl gywir⁴. Felly, pan ddisgrifir gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp fel gwahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, cyfeirir at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar y lefel cyfwng 95 y cant. Mae hyn yn golygu, pe defnyddiai'r arolwg sampl ar hap, y byddai'r tebygolrwydd o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20.

Dadansoddiad chi-sgwâr

Defnyddiwyd y prawf chi-sgwâr yn y dadansoddiad i benderfynu pa un a yw cydberthynas a arsylwyd rhwng dau newidyn categorïaidd yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth (h.y. cyfanswm y boblogaeth breswyl sy'n oedolion 16 oed a throsodd yng Nghymru).

⁴ Gschwend, T (2005). Analyzing Quota Sample Data and the Peer-review Process. *French Politics*, 2005, 3, (88–91).

Diffiniad o'r rhanbarthau

Dengys Tabl A.1 isod pa awdurdodau unedol yng Nghymru sy'n rhan o'r rhanbarthau a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.

Tabl A.1: Diffiniad o'r rhanbarthau

Rhanbarth	Awdurdodau unedol
Gogledd Cymru	Ynys Môn Gwynedd Conwy Sir Ddinbych Sir y Fflint Wrecsam
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Ceredigion Powys Sir Benfro Sir Gaerfyrddin
Bae Abertawe	Abertawe Castell-nedd Port Talbot Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cymoedd	Rhondda Cynon Taf Merthyr Tudful Caerffili Blaenau Gwent
Caerdydd a De Ddwyrain Cymru	Bro Morgannwg Caerdydd Casnewydd Torfaen Sir Fynwy

Diffiniad o grwpiau cymdeithasol

Dengys Tabl A.2 isod ddiffiniad o'r dosbarthiad o grwpiau cymdeithasol a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.

Tabl A.2: Diffiniad o raddfeydd cymdeithasol

Grŵp cymdeithasol	Diffiniad
ABC1	
A	Rheolwyr, gweithwyr gweinyddol neu weithwyr proffesiynol lefel uchel
B	Rheolwyr, gweithwyr gweinyddol neu weithwyr proffesiynol lefel ganolradd
C1	Gweithwyr goruchwyllo, clerigol a rheolwyr iau, gweithwyr gweinyddol neu broffesiynol
C2DE	
C2	Gweithwyr llaw â sgiliau
D	Gweithwyr llaw â rhai sgiliau a heb sgiliau
E	Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu weithwyr ar y raddfa isaf, pobl ddi-waith â budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig

Meintiau'r is-sampl

Dengys Tabl A.3 isod nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi data mis Mehefin 2013. Nodir nifer yr ymatebwyr ar gyfer y samplau heb eu pwysoli a'r samplau wedi'u pwysoli.

Tabl A.3: Niferoedd yn yr is-samplau yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol

	Mehefin 2014		Medi 2014	
	Sampl heb ei phwysoli	Sampl wedi'i phwysoli	Sampl heb ei phwysoli	Sampl wedi'i phwysoli
Rhanbarth				
Gogledd Cymru	240	232	276	226
Canolbarth a Gorllewin Cymru	177	175	164	170
Bae Abertawe	164	175	184	171
Y Cymoedd	177	180	160	175
Caerdydd a De-ddwyrain Cymru	271	267	218	260
Oedran				
16 – 34 oed	267	301	263	293
35 – 54 oed	285	336	291	327
55+ oed	477	392	448	381
Rhyw				
Dynion	471	500	451	487
Merched	558	529	551	515
Grŵp cymdeithasol				
ABC1	495	494	457	458
C2DE	532	532	537	535

Atodiad B: Holiadur (Saesneg yn unig)

Organ Donation Omnibus Questions Waves 4 and 5

And now changing the subject, I'd like to ask you a few questions about organ donation.

Q1. Can you tell me how you think the current system of organ donation works – that is, how do you think organs get donated?

PROBE FOR DETAIL: Anything else?

OPEN ENDED

Could you read this card please

SHOWCARD

Currently people in Wales can opt in to join the NHS Organ Donor Register if they wish to donate their organs after their death. It's normal practice for doctors to let relatives know if the person has opted in and doctors will encourage families to accept that, but will not proceed if families will not agree to the process. If you have not joined the Register, your family can consent to donate your organs after your death.

Q2. Are you aware of any changes that will be taking place to the current organ donation system?

- Yes
- No
- Don't know

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q2a. How did you become aware of the changes to the current organ donation system?

DO NOT PROMPT

On TV – news / programme
On TV - advertising

On the radio – news / programme
On the radio – advertising

In a local newspaper – news / article
In a local newspaper – advertising

In a national Wales newspaper – news / article
In a national Wales newspaper – advertising

In a national UK newspaper – news / article
In a national UK newspaper – advertising

Online / website – news item
Online / website – other

In a magazine
Poster

Leaflet
Someone told me
Other, please specify

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q3. Can you tell me how you think the system will change?

OPEN ENDED

Please take a look at this card

SHOWCARD

The National Assembly for Wales has passed a law to change the organ donation procedure to a 'soft opt out' system. From December 2015 people will be given the opportunity to formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The law will allow family members to object to donation on the basis that they know the deceased person would not have wished to consent. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor will continue.

Q4. Before today, have you seen or heard anything about this proposal at all?

- Yes
- No
- Don't know

WAVE 5 QUESTIONS STOP HERE

Q5. Which of these statements about changes to the organ donation system in Wales best reflects your view?

REFER TO SHOWCARD IF NECESSARY: People will be given the opportunity to formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor will continue

- I am in favour of this change in legislation
- I am against this change in legislation
- I need more information to decide
- Don't know

ASK IF IN FAVOUR OF CHANGE AT Q5

Q6a. Can you tell me why you are in favour of the change in legislation?

OPEN ENDED

ASK IF AGAINST CHANGE AT Q5

Q6b. Can you tell me why you are against the change in legislation?

OPEN ENDED

ASK IF NEED MORE INFORMATION AT Q5

Q6c. Can you tell me what additional information you need?

OPEN ENDED

SHOWCARD

Q7. When the new system of opting out is introduced, which of the following best describes what you think you will do?

- I will register a wish **not** to be a donor (i.e. opt out)
- I will register a wish to be a donor (i.e. opt in)
- I've already registered a wish to be a donor (and will take no further action – i.e. remain opted in)
- I've not registered a wish to be a donor, but I **don't** think I'll opt out of being one
- Don't know

INTERVIEWER NOTE: If respondent without prompting mentions something other than the answers on the card or DK, please record here:

Q8a/b/c/d. Can you tell me why that is [ANSWER AT Q7]?

OPEN ENDED

Q9. Have you ever discussed your wishes regarding organ donation after your death with a family member?

- Yes
- No

Q10. And can you tell me if you are currently registered on the NHS Organ Donor Register?

- Yes
- No
- Don't know